



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Monitro Afiachedd Tywydd Oer yng Nghymru

Adroddiad Gwylidwriaeth Blynyddol 2025

22^{ain} o Fai 2026



Canfyddiadau Allweddol

Cafat: Mae'r canfyddiadau hyn yn signalau gwyliadwriaeth disgrifiadol mewn data 999 ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, ac nid ydynt yn awgrymu achosiaeth nac effeithiau llwybr gofal unigol.

Ni wnaeth cyfnodau oer yn 2024/25 gynyddu galwadau brys na derbyniadau i'r ysbyty yn gyffredinol ond cynyddodd rhai problemau iechyd penodol.

Roedd cyfanswm y galwadau 999 a'r niferoedd a fynychodd adrannau damweiniau ac achosion brys ychydig yn is yn ystod cyfnodau oer, ac ni ddangosodd derbyniadau i'r ysbyty unrhyw newid. Fodd bynnag, roedd galwadau am ataliad ar y galon neu anadlol yn uwch yn ystod cyfnodau oer, a chynyddodd cwmpadau yn y dyddiau ar ôl cyfnodau oer.

Oedolion hŷn oedd wedi'u heffeithio fwyaf gan broblemau iechyd yn gysylltiedig ag oerfel.

Cafwyd mwy o alwadau 999 gan bobl 65 oed a hŷn oherwydd anawsterau anadlu, pryderon iechyd meddwl, ac anymwybyddiaeth yn ystod cyfnodau oer ac oedi. Mae'r patrymau hyn yn awgrymu bod oedolion hŷn yn parhau i fod yn arbennig o agored i effeithiau tywydd oer.

Dangosodd oedolion o oedran gweithio (17–64 oed) gynydd mesuradwy mewn galwadau brys 999 ar ôl oerfel hefyd.

Roedd galwadau 999 sy'n gysylltiedig ag anhawster anadlu a chwmpadau yn uwch ymhlith oedolion o oedran gweithio ar ôl cyfnodau oer.

Dangosodd menywod broblem iechyd benodol yn gysylltiedig ag oerfel.

Gwelwyd cynnydd mewn galwadau 999 am fod yn anymwybodol neu lewyg mewn benywod yn ystod y cyfnod oedi, sy'n awgrymu y gallai menywod fod ychydig yn fwy agored i effeithiau a ddaw yn sgil tywydd oer ar gyfer y broblem iechyd hon.

Ni newidiodd derbyniadau brys i'r ysbyty yn sylweddol.

Er gwaethaf cynnydd mewn rhai categorïau galwadau 999, nid oedd cynnydd cyfatebol mewn derbyniadau brys yn ystod cyfnodau oer neu oedi.



Crynodeb Gweithredol


Dangosydd	Arwyddocâd cyffredinol effaith uniongyrchol oerfel ar y boblogaeth gyffredinol*	Arwyddocâd cyffredinol effaith a ddaw yn sgil oerfel ar y boblogaeth gyffredinol*	Demograffeg gyda chymhareb cyfradd achosion yn arwyddocaol yn ystadegol	Demograffeg i'w monitro (cymhareb cyfradd achosion uwch, heb fod yn arwyddocaol yn ystadegol)		
999 – Cyfanswm nifer y galwadau			-	-		
999 - Anawsterau anadlu			17 i 64 oed a 65 oed a hŷn	-		
999 - Ataliad ar y galon neu anadlol				-	0 i 16 oed	
999 - Poenau yn y frest				-	-	
999 – Amlygiad i oerfel				-	-	
999 – Cwmp gyda phroblem anhysbys				-	0 i 16 oed	
999 - Cwmpïadau					17 i 64 oed	-
999 - Pen tost/cur pen				-	-	
999 – Anadlu CO/cemegau peryglus				-	-	
999 - Iechyd Meddwl				-	65 oed a hŷn	0 i 16 oed
999 – Gorddos neu wenwyno drwy lyncu				-	-	
999 - Strôc				-	-	
999 – Anymwybodol neu lewyg				-	65 oed a hŷn, a Benywod	-
Nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (A&E) – Cyfanswm nifer y cleifion				-	-	
Derbyniadau brys drwy A&E				-	-	

Cymhareb cyfradd achosion uwch, yn arwyddocaol yn ystadegol

Monitro (IRR uchel, heb fod yn arwyddocaol yn ystadegol)

Dim cynnydd

Heb ei brofi oherwydd niferoedd bach neu IRR dibwys





Pwrpas a Chwmpas.

Mae'r adroddiad gwyliadwriaeth blynyddol hwn yn disgrifio patrymau mewn gweithgaredd gofal iechyd brys yng Nghymru yn ystod gaeaf **2024/25** ar draws tri chyfnod wedi'u diffinio ymlaen llaw: **oer** (diwrnodau gyda chymedr Cymru $\leq 2^{\circ}\text{C}$ am ≥ 2 ddiwrnod yn olynol), **oedi** (hyd at 7 diwrnod ar ôl oerfel), a **llinell sylfaen** (pob diwrnod arall rhwng 31 Hydref a 31 Mawrth). Y nod yw llywio camau gweithredu iechyd y cyhoedd. Mae'r canfyddiadau'n **ddisgrifiadol** ac **nid ydynt yn awgrymu achosiaeth**.

Ar gyfer yr adroddiad afiachedd tywydd oer blynyddol cyntaf hwn, defnyddiwyd dull cymhareb cyfradd achosion syml a thryloyw gennym gyda chyfnodau wedi'u diffinio ymlaen llaw, yn hytrach na dulliau mwy datblygedig, i flaenoriaethu anghenion gwyliadwriaeth weithredol, atgynhyrchu ac eglurder tra bod y system a'r seilwaith data yn aeddfedu.

Cyd-destun tymhorol.

Profodd Cymru **78 diwrnod oer**, **46 diwrnod o oedi**, **28 diwrnod llinell sylfaen**, a chyfnod oer estynedig ym mis Ionawr; roedd y tymor cyffredinol yn fwynach na'r cyfartaleddau diweddar ond roedd yn cynnwys penodau oer penodol. Cynhaliwyd dadansoddiadau ar lefel genedlaethol gan ddefnyddio'r tymheredd cymedrig dyddiol.

Gweithgaredd pob achos.

- **Galwadau 999 (pob categori):** is yn ystod yr oerfel nag yn y llinell sylfaen (Cymhareb Cyfradd Achos (IRR) **0.96**; 95% o gyfyngiad hyder (CI) **0.95 – 0.97**; $p < 0.001$); dim tystiolaeth o wahaniaeth yn ystod yr oedi (IRR) **1.01**; 95% CI **1.00–1.03**; $p = 0.11$).
- **Nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys (pob achos):** is yn ystod oerfel (IRR **0.97**; CI 95% **0.96 – 0.97**) ac oedi (IRR **0.98**; CI 95% **0.97 – 0.99**).
- **Derbyniadau brys drwy'r Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys:** dim gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn cyfnodau oer neu oedi.

Categoriâu galwadau 999 penodol gyda chyfraddau uwch.

- **Ataliad ar y galon neu anadlol:** yn uwch yn ystod oerfel (IRR **1.15**; 95% CI **1.04–1.26**).
- **Cwmpadau:** yn uwch yn ystod yr oedi (IRR **1.05**; 95% CI **1.01 – 1.09**).

Signalau penodol i oedran.

Oedolion hŷn (≥ 65 oed) a ddangosodd y signalau clirïaf:



- **Anawsterau anadlu:** yn uwch mewn oerfel (IRR 1.05; 95% CI 1.01 – 1.11) ac oedi (IRR 1.13; 95% CI 1.08 – 1.19).
 - **Iechyd meddwl:** yn uwch mewn oedi (IRR 1.24; 95% CI 1.01 – 1.53).
- Anymwybodol/llewyg:** yn uwch mewn oerfel (IRR 1.13; 95% CI 1.04 – 1.22) ac oedi (IRR 1.12; 95% CI 1.03 – 1.22).

Dangosodd **oedolion o oedran gweithio (17–64 oed)** gynnydd mesuradwy mewn galwadau brys 999 ar ôl oerfel hefyd. Roedd cyfraddau galwadau **anhawster anadlu** yn uwch yn ystod y cyfnod oedi (IRR 1.12; CI 95% CI 1.05–1.21), ac roedd **galwadau sy'n gysylltiedig â chwmpiadau** hefyd yn uwch (IRR 1.12; CI 95% CI 1.02–1.23).

Signalau penodol i ryw

Ymhlith benywod, roedd cynnydd bach ond yn arwyddocaol yn ystadegol mewn adroddiadau o fod yn anymwybodol neu lewyg yn ystod y cyfnod oedi (IRR 1.10; 95% CI 1.01–1.20).

Poblogaethau a gwasanaethau.

Ni welwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ôl oedran, rhyw, amddifadedd (MALIC) neu ardaloedd gwledig ar lefel Cymru gyfan. Gwelwyd cynnydd ystadegol arwyddocaol ym mhob cyfradd galwadau 999 penodol i gategorïau yn **BIP Cwm Taf Morgannwg** yn ystod yr oedi (IRR 1.05; CI 95% CI 1.01 – 1.09); ni archwiliwyd ffactorau lleol yn yr adroddiad hwn.

Dehongli ar gyfer gwylidwriaeth.

- Canfu'r system **weithgarwch pob achos is** yn ystod cyfnodau oer gyda **chynnydd wedi'i dargedu** mewn categorïau clinigol penodol a **signalau cryfach mewn oedolion hŷn**.
- **Ni** ddangosodd **derbyniadau brys** gynnydd cyfatebol yn ystod cyfnodau oer neu oedi.

Cyfngiadau allweddol.

- **Ni fesurwyd amodau dan do ac effaith ehangach ar iechyd a llesiant:** dim data ar dymheredd dan do, tlodi tanwydd, nac ansawdd tai; ni ellir nodi "cartrefi oer"; cyfyngedig i ddata 999 ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
- **Dryswch tymhorol:** dylanwadir ar afiachedd yn ystod y gaeaf gan ffactorau cydamserol (e.e., heintiau anadlol, pwysau ar y gwasanaeth) na addaswyd ar eu cyfer yma.



- **Daeryddiaeth ac amlygiad:** gall cyfres tymheredd cenedlaethol guddio microhinsoddau lleol; nid yw dadansoddiadau wedi'u haenu yn ôl tymheredd y bwrdd iechyd.
- **Pŵer ystadegol:** gall niferoedd cyfyngedig o ddiwrnodau oer/oedi a strata bach gynhyrchu amcangyfrifon amwys; mae signalau agos a ddewiswyd (e.e., $IRR \geq 1.2$ gyda 95% CI gan gynnwys 1) yn cael eu nodi ar gyfer monitro yn hytrach na chadarnhad.
- Nid yw'r adroddiad gwylidwriaeth disgrifiadol hwn yn cynnal cymariaethau ffurfiol rhwng grwpiau, gan mai ei bwrpas yw disgrifio patrymau; gall unrhyw ragdybiaethau a gynhyrchir wedyn lywio ymchwil epidemioleg dadansoddol yn y dyfodol.

Gwelliannau methodolegol wedi'u cynllunio.

Bydd cylchoedd yn y dyfodol yn: (i) archwilio **Modelau Aflinol Oedi Dosbarthedig (DLNMs)** i gofnodi perthnasoedd tymheredd-iechyd yn sgil oedi/aflinol yn well; (ii) ystyried addasu ar gyfer **dryswyr allweddol** (e.e., gweithgaredd ffliw); ac (iii) ystyried **dadansoddiadau sensitifrwydd** gan ddefnyddio diffiniadau tymhorol/cymharydd amgen i brofi cryfder.



Cynnwys

Canfyddiadau Allweddol	1
Crynodeb Gweithredol.....	2
1. Cefndir	8
2. Dulliau	9
2.1. Diffiniad tywydd oer.....	9
2.2. Canlyniadau a Haenu	10
2.3. Dadansoddi Data.....	10
2.4. Ystyriaeth o Effeithiau Diwrnod yr Wythnos ac Atal Data.	11
3. Crynodeb o'r canfyddiadau	13
3.1. Cyfnodau oer a thueddiadau'r gaeaf.....	13
3.2. Cyfanswm galwadau 999	16
3.2.1. Cyfanswm galwadau 999 penodol i'r categori.	17
3.2.2. Galwadau 999 penodol i gategori yn ôl grŵp oedran.	19
3.2.3. Galwadau 999 penodol i gategori yn ôl rhyw.	26
3.2.4. Galwadau 999 penodol i gategoriâu yn ôl bwrdd iechyd.....	28
3.3. Nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.	29
3.4. Derbyniad brys i'r ysbyty (pob achos).	30
4. Y Cyfyngiadau.....	31
5. Casgliad	33
6. Argymhellion:	34
7. Atodiad	35
Atodiad 1 - Cyfraddau galwadau 999 dyddiol wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100,000 o'r boblogaeth) wedi'u categorio fel 'Ataliad ar y galon neu anadlol' yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	35
Atodiad 2 - Cyfraddau galwadau 999 dyddiol wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100,000 o'r boblogaeth) wedi'u categorio fel 'Poen yn y frest' yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).....	36
Atodiad 3 - Cyfraddau galwadau 999 dyddiol wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100,000 o'r boblogaeth) wedi'u categorio fel 'Pen tost/Cur pen' yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oerfel (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	37
Atodiad 4 - Cyfraddau galwadau 999 dyddiol wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100,000 o'r boblogaeth) wedi'u categorio fel 'Gorddos neu wenwyno trwy lyncu' yn ystod y	



cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar glaswyrdd) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	38
Atodiad 5 - Cyfraddau galwadau 999 dyddiol wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100,000 o'r boblogaeth) wedi'u categorio fel 'Strôc' yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar glaswyrdd) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	39
Atodiad 6 - Cyfraddau nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys dyddiol cymedrig wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100k o'r boblogaeth) yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	39
Atodiad 7 - Cyfraddau nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys dyddiol cymedrig wedi'u haenu yn ôl rhyw (fesul 100,000 o'r boblogaeth) yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	40
Atodiad 8 - Cyfraddau nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys dyddiol cymedrig (pob achos) yn ôl MALIC (fesul 100,000 o'r boblogaeth) yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).	40
Atodiad 9 - Cyfraddau mynychu Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys dyddiol cyfartalog (pob achos) yn ôl dosbarthiad gwledig trefol (fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ystod cyfnodau llinell sylfaen, oer ac oedi (cyfyngau hyder \pm 95% (llinellau pinc)).	41
8. Cyfeiriadau	42
9. Gwybodaeth bellach a manylion cyswllt:	44
Am Iechyd Cyhoeddus Cymru	44
Cydnabyddiaethau	44
Adborth a gwybodaeth gyswllt	44
Cymhwyso'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau yn wirfoddol	45



1. Cefndir

Gall tywydd oer beri risgiau difrifol i iechyd y cyhoedd, gan achosi marwolaethau 'ychwanegol' yn y gaeaf o'i gymharu â gweddill y flwyddyn. Gall tywydd oer gyfrannu at hypothermia, cwympiadau ac anafiadau, trawiadau ar y galon, strôcs, clefydau anadlol, iechyd meddwl gwael, megis iselder, a gwenwyno carbon monocsid o foeleri, offer coginio a gwresogi sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael neu wedi'u hawyru'n wael [1-6-6]. Roedd gaeaf 2024/25 yng Nghymru ychydig yn fwynach na chyfartaledd 1991–2020, gydag anomaledd tymheredd cymedrig o +0.5°C, wedi'i gymhell gan fis Rhagfyr cynnes iawn er gwaethaf mis Ionawr oerach. Felly, ar gyfartaledd, roedd y tymereddau yn ystod gaeaf 2024/25 0.5°C yn gynhesach na chyfartaledd 1991–2020 [7].

Roedd y glawiad tua 94% o'r cyfartaledd, er bod mis Rhagfyr yn wlypach na'r arfer [7]. Daeth dwy storm a enwyd, Darragh (mis Rhagfyr) ac Éowyn (mis Ionawr), â gwyntoedd cryfion, gydag Éowyn y storm wynt fwyaf arwyddocaol yn y DU ers dros ddegawd [7-8]. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu tuedd hinsawdd ehangach o aeafau mwynach a gwlypach sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd [9].

Mae'r adroddiad hwn yn asesu effaith uniongyrchol ac effaith a ddaw yn sgil tywydd oer ar y galw am ofal iechyd brys yng Nghymru drwy ddadansoddi galwadau 999, nifer y cleifion mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, a derbyniadau brys i'r ysbyty drwy'r Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod y cyfnod oer a'r cyfnodau oedi dilynol, o'i gymharu â'r cyfnod pan nad yw'n oer (dyddiau llinell sylfaen). Nod y canfyddiadau yw llywio cynllunio iechyd y cyhoedd a strategaethau addasu i'r hinsawdd drwy nodi patrymau yn y defnydd o wasanaethau iechyd sy'n gysylltiedig ag oerfel ar draws grwpiau demograffig a daearyddol.



2. Dulliau

Cafwyd data afiachedd ar gyfer galwadau 999 gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (WAST) a nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, a derbyniadau brys i'r ysbyty trwy nifer y cleifion mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys gan Ofal Iechyd Digidol Cymru (DHCW) yn cwmpasu tymor y gaeaf 2024/2025 (31 Hydref 2024 – 31 Mawrth 2025).

Diffiniwyd ffenestr gwyladwriaeth y tymor oer fel 31 Hydref 2024 – 31 Mawrth 2025 i gyd-fynd â [thymor craidd Rhybudd Iechyd Oer UKHSA](#), lle mae canllawiau monitro a gweithredol cenedlaethol (Lloegr yn unig, nid Cymru) ar gyfer effeithiau iechyd sy'n gysylltiedig ag oerfel ar waith. Mae ein cymharydd llinell sylfaen yn cynnwys diwrnodau nad ydynt yn oer o fewn yr un ffenestr hon, i reoli ar gyfer ysgogwyr gaeaf o'r un cyfnod o afiachedd a defnyddio gofal iechyd. Gall cymharwyr y tu allan i'r tymor gymysgu tymheredd â gwahaniaethau tymhorol eang ac maent yn fwy cydnaws â fframweithiau marwolaethau ychwanegol yn y gaeaf. Cynhwyswyd 31 Hydref gennym fel cyfnod byffer un diwrnod i sicrhau bod y cyfnod oer cymwys cyntaf a'i oedi lle mae cyfnodau'n digwydd ar draws troad y mis yn cael eu cofnodi'n llawn.

Cafwyd data tymheredd gan [Open-Meteo](#) ar gyfer yr un cyfnod. Deilliodd data poblogaeth ar gyfer Cymru o [amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024 y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ONS\)](#). Amcangyfrifwyd poblogaethau byrddau iechyd drwy agregu amcangyfrifon canol blwyddyn 2024 ar lefel awdurdodau lleol. Cafodd amcangyfrifon poblogaeth 2024 lefel Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) eu hagregu i gyfrifo cyfansymiau'r boblogaeth yn ôl cwntil Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ([MALIC 2025](#)) a dosbarthiad gwledig-trefol. Aseiniwyd statws gwledig-trefol gan ddefnyddio [Dosbarthiad Gwledig-Trefol 2021 yr ONS](#) ar gyfer daearyddiaeth ardaloedd bach.

2.1. Diffiniad tywydd oer

Yn Lloegr, mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) a'r Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi Rhybuddion Tywydd Oer pan fydd y tymheredd cyfartalog yn gostwng islaw 2°C am fwy na 48 awr [10]. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, diffiniwyd cyfnodau oer yng Nghymru gan ddefnyddio'r un trothwy tymheredd, a diffiniwyd cyfnodau oedi fel y saith diwrnod yn dilyn diwedd cyfnod oer [10–13]. Diffiniwyd y tri chyfnod fel a ganlyn:

- **Cyfnod oer:** dyddiau pan oedd y tymheredd cyfartalog yng Nghymru ≤ 2 °C am o leiaf ddau ddiwrnod yn olynol;
- **Cyfnod oedi:** hyd at saith diwrnod yn dilyn diwedd cyfnod oer oni bai bod cyfnod oer cyn y seithfed diwrnod;
- **Llinell sylfaen:** diwrnodau cyfnodau nad ydynt yn oer, pob diwrnod y tu allan i'r cyfnodau oer a'r cyfnodau oedi.

Nodwyd cyfnodau oer a chyfnodau oedi gan ddefnyddio cyfres ranbarthol Cymru - Tymheredd cymedrig (tymheredd cymedrig canolog Cymru). Defnyddiwyd y tymheredd lefel genedlaethol hwn i benderfynu a oedd unrhyw gyfnodau yn cyrraedd y trothwy



cyfnod oer a ragddiffiniwyd. Os na chanfuwyd cyfnod oer ledled Cymru, byddai cyfresi tymheredd rhanbarthol (bwrdd iechyd lleol) yn cael eu hasesu i nodi unrhyw ddigwyddiadau lleol nad ydynt wedi'u cofnodi'n genedlaethol.

2.2. Canlyniadau a Haenu

Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar ganlyniadau iechyd a allai fod yn gysylltiedig ag amlygiad i oerfel (gweler Tabl 1 am y categorïau a gynhwyswyd) ac fe'i haenwyd yn ôl grŵp oedran (0–16, 17–64, a 65+), rhyw, statws economaidd-gymdeithasol (cwintelau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, MALLC), a dosbarthiad gwledig-trefol. Oherwydd argaeledd data, dim ond ar gyfer nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yr oedd dadansoddiadau MALLC a gwledig-trefol yn bosibl. Aseswyd dosbarthiad daearyddol galwadau 999 ar draws byrddau iechyd Cymru hefyd.

2.3. Dadansoddi Data

Cynhaliwyd yr holl ddadansoddiadau data ar gyfer yr adroddiad gwyliadwriaeth hwn gan ddefnyddio fersiwn 4.5.1 o R o fewn amgylchedd RStudio gan ddefnyddio dangosyddion gwyliadwriaeth syndromig i gymharu canlyniadau iechyd. Cysylltwyd canlyniadau a newidynnau haenu â thymheredd dyddiol cyfartalog Cymru ar gyfer y cyfnod gwyliadwriaeth gyda chyfnodau cyfeirio oerfel, oedi a llinell sylfaen (Tabl 1) wedi'u diffinio i asesu effaith uniongyrchol a'r effaith a ddaw yn sgil tywydd oer.

Y prif ddull dadansoddol oedd cyfrifo **cymarebau cyfradd achosion (IRRs)**, sy'n darparu mesurau o risg gymharol y gellir eu dehongli ac yn caniatáu cymhariaeth uniongyrchol ar draws cyfnodau â gwahanol hydau.

Er y gall dulliau modelu mwy datblygedig, megis Modelau Aflinol Oedi Dosbarthedig (DLNMs), nodweddu effeithiau tymheredd yn sgil oedi ac effeithiau aflinol, mae'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn fwriadol yn defnyddio fframwaith IRR symlach gyda chyfnodau oerfel, oedi a llinell sylfaen wedi'u diffinio ymlaen llaw. Mae'r dull hwn yn addas iawn ar gyfer gwyliadwriaeth gyflym ac epidemioleg ddisgrifiadol heb fod angen rhagdybiaethau modelu cymhleth. Bydd modelau mwy cymhleth yn cael eu datblygu yn y blynyddoedd i ddod wrth i'r system esblygu, ac wrth i'r seilwaith data gryfhau.

Cyfrifwyd cyfraddau dyddiol fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob cyfnod, ynghyd â chyfyngau hyder (CIs) o 95%. Cyfrifwyd **amser unigolyn mewn perygl** drwy luosi maint y boblogaeth â hyd pob cyfnod mewn dyddiau, gan sicrhau bod amrywiadau yn yr amser amlygiad (oerfel = 78 diwrnod; oedi = 46 diwrnod; llinell sylfaen = 28 diwrnod) wedi'u hystyried.

Diffiniwyd **cyfraddau** fel:

$$\text{Cyfradd} = \text{Cyfrif digwyddiadau} / \text{Amser unigolyn} = (\text{Poblogaeth} \times \text{Dyddiau yn y cyfnod})$$

Amcangyfrifwyd **IRRs** gan ddefnyddio'r ffwythiant *rateratio* o'r pecyn *epitools* yn R^[14], gyda'r cyfnod llinell sylfaen yn gwasanaethu fel y categori cyfeirio. Cyfrifwyd IRRs fel:



$IRR_{\text{oerfel yn erbyn llinell sylfaen}} = \text{Cyfradd}_{\text{oerfel}} / \text{Cyfradd}_{\text{llinell sylfaen}}$

$IRR_{\text{oedi yn erbyn llinell sylfaen}} = \text{Cyfradd}_{\text{oedi}} / \text{Cyfradd}_{\text{llinell sylfaen}}$

Adroddwyd ynghylch 95% CIs a gwerthoedd-p cyfatebol, gydag arwyddocâd ystadegol wedi'i ddiffinio gyda **gwerth-p llai na 0.05** a **95% CI nad oedd yn cynnwys 1** [15]. Mae'n bwysig nodi nad yw cyfrifon digwyddiadau absoliwt yn unig yn adlewyrchu cryfder y cysylltiad oherwydd gwahaniaethau yn hyd yr amlygiad. Mewn cyd-destun gwylidwriaeth sy'n canolbwyntio ar ganfod signalau'n gynnar yn hytrach na chasgliad achosol, rydym yn rhagnodi bydd amcangyfrifon effaith sy'n awgrymu cynnydd cymedrol i fawr (e.e., $IRR \geq 1.2$) yn cael eu hamlygu hyd yn oed pan fydd 95% CIs yn cynnwys 1.

2.4. Ystyriaeth o Effeithiau Diwrnod yr Wythnos ac Atal Data.

Mae amrywiadau dyddiol mewn galwadau brys 999 a nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn gyffredin, gyda nifer yr achosion uchaf fel arfer yn digwydd ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn, tra bod derbyniadau i'r ysbyty yn tueddu i fod yn is ar benwythnosau. Yn bwysig, nid oedd unrhyw ragfarn systematig yn nosbarthiad cyfnodau oer yn ôl diwrnod yr wythnos, sy'n awgrymu nad oedd effeithiau diwrnod yr wythnos yn drysu'r canfyddiadau.

Er mwyn cynnal cyfrinachedd a dibynadwyedd data, ataliwyd cyfanswm cyfrifon llai na phump ar gyfer galwadau 999 a nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Oherwydd niferoedd isel, eithriwyd galwadau yn ymwneud ag amlygiad i'r oerfel, ac anadlu carbon monocsid neu gemegau peryglus o'r dadansoddiadau haenedig.

Tabl 1: Crynodeb o'r holl categorïau a gofnodwyd o bob ffynhonnell ddata [16].

Galwadau 999	Nifer y bobl mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys
Cyfanswm nifer y galwadau	Cyfanswm nifer y bobl mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys
Anawsterau anadlu	Derbyniadau brys drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys
Ataliad cardiaidd neu anadlol	
Poenau yn y frest	
Amlygiad i oerfel	
Cwmp gyda phroblem anhysbys	
Cwmpïadau	



Pen tost / Cur pen	
Anadlu CO / cemegau peryglus	
Iechyd Meddwl	
Gorddos neu wenwyno trwy lyncu	
Strôc	
Anymwybodol neu lewyg	




3. Crynodeb o'r canfyddiadau

3.1. Cyfnodau oer a thueddiadau'r gaeaf.

Ar draws Cymru, yn ystod tymor gaeaf 2024/2025, roedd cyfanswm o **78 diwrnod** yn bodloni'r trothwy diffiniedig ar gyfer y cyfnod oer, roedd **46 diwrnod** yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y cyfnod oedi a dosbarthwyd **28 diwrnod** fel y cyfnod llinell sylfaen. Ionawr 2025 oedd y mis yr effeithiwyd arno fwyaf, gyda 27 diwrnod yn cofnodi tymhereddau cymedrig a oedd yn cwrdd â gofynion cyfnod oer, gan ei nodi fel y cyfnod parhaus hiraf o gyfnodau oer rhwng 31 Hydref 2024 - 31 Mawrth 2025 (Ffigur 1).

O'i gymharu â'r llinell sylfaen gyfartalog bum mlynedd, roedd gaeaf cyffredinol 2024/2025 yn gymharol fwyn ledled Cymru (Ffigur 1 a Ffigur 2). Fodd bynnag, roedd pum cyfnod oer penodol lle gostyngodd y tymheredd cymedrig islaw'r cyfartaledd tymhorol hirdymor (Ffigur 2).



Ffigur 1 - Tymheredd dyddiol cymedrig (°C) yng Nghymru ar gyfer gaeaf 2024-25 (llinell las tywyll) rhwng 31 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025 a'r cyfnod oer (petryalau glas golau). Mae'r llinell doredig binc yn cynrychioli trothwy tymheredd y cyfnod oer.¹

¹ Diffinnir cyfnod oer fel unrhyw ddau ddiwrnod yn olynol neu fwy yn ystod misoedd y gaeaf gyda thymheredd dyddiol cymedrig $\leq 2^{\circ}\text{C}$.



Ffigur 2 - Tymheredd dyddiol cymedrig (°C) yng Nghymru yn ystod gaeaf 2024/2025 (llinell las brenhinol) o'i gymharu â'r cyfartaledd pum mlynedd (2019-2023, llinell laswyrdd) ± cyfyngau hyder 95% (arlliw llwyd). Mae'r petryal pinc yn dangos y pum cyfnod lle syrthiodd y tymheredd cyfartalog dyddiol islaw'r cyfartaledd tymhorol hirdymor.




Tabl 2: Nifer y Galwadau 999, nifer y bobl mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, a nifer y derbyniadau brys drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, yn ôl categori a chyfnod (qaeaf 2024/25, Cymru)².

Categori	Cyfanswm y cyfnod llinell sylfaen	Cyfanswm y cyfnod oer	Cyfanswm y cyfnod oedi
Galwadau 999			
Amlygiad i oerfel	5	18	8
Anadlu CO / cemegau peryglus	34	61	44
Pen tost / Cur pen	169	356	226
Cwmp gyda phroblem anhysbys	490	1,394	802
Ataliad cardiaidd neu anadlol	552	1,762	984
Gorddos neu wenwyno trwy lyncu	856	2,297	1,379
Iechyd meddwl	1,058	3,009	1,772
Strôc	1,158	2,912	1,816
Anymwybodol neu lewyg	1,629	4,670	2,819
Poen yn y frest	3,175	8,012	5,102
Cwmpadau	4,109	11,658	7,076
Anawsterau anadlu	4,568	11,608	7,683
Cyfanswm y Digwyddiadau Galwadau 999	32,589	87,188	54,145
Nifer y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys			
Derbyniadau brys drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys	30,036	81,666	47,078
Cyfanswm y cleifion mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys	73,819	198,479	118,463

² Noder nad yw cyfrifon digwyddiadau absoliwt yn unig yn adlewyrchu cryfder y cysylltiad oherwydd gwahaniaethau yn hyd yr amlygiad.

3.2. Cyfanswm galwadau 999

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith uniongyrchol ac a ddaw yn sgil tywydd oer ar alwadau 999 cyffredinol (pob categori) ar gyfer Cymru yn ystod y cyfnod oer o'i gymharu â'r cyfnod llinell sylfaen (IRR: 0.96%, 95% CI: 0.95–0.97; $p < 0.001$). Yn yr un modd, nid oedd cyfraddau galwadau yn ystod y cyfnod oedi yn wahanol iawn i'r llinell sylfaen (IRR: 1.01%, 95% CI: 1.00–1.03; $p = 0.11$) (Ffigur 3).




Ffigur 3 - Cyfraddau galwadau dyddiol cymedrig (fesul 100,000 o'r boblogaeth) ar gyfer pob categori galwadau yn ystod cyfnodau oer (glas brenhinol), oedi (gwyrdd), a llinell sylfaen (gwyrddlas) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinellau pinc)).

3.2.1. Cyfanswm galwadau 999 penodol i'r categori.

Er mwyn asesu effaith uniongyrchol a a ddaw yn sgil tywydd oer ar ganlyniadau iechyd penodol, cymharwyd nifer yr achosion o alwadau 999 gennym ar draws cyfnodau oer (78 diwrnod), oedi (46 diwrnod), a llinell sylfaen (28 diwrnod). Gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol mewn dau gategori:


- **Cwmpïadau** Roedd cyfraddau galwadau yn sylweddol uwch yn ystod y cyfnod oedi o'i gymharu â'r llinell sylfaen (IRR: 1.05%, 95% CI: 1.01–1.09; $p < 0.05$).
- **Ataliad cardiaidd neu resbiradol** : Roedd cyfraddau galwadau yn sylweddol uwch yn ystod y cyfnod oer o'i gymharu â'r llinell sylfaen (IRR: 1.15%, 95% CI: 1.04–1.26; $p < 0.05$).

Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u darlunio yn Ffigur 4 a Ffigur 5 .



Ffigur 4 - Cyfraddau galwadau dyddiol cymedrig (fesul 100,000 o'r boblogaeth) ar gyfer galwadau 999 wedi'u categoreiddio fel anawsterau anadlu, ataliad ar y galon neu anadlol, poen yn y frest, amlygiad i oerfel³, cwmp gyda phroblem anhysbys a chwmpïadau yn ystod cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (llinell binc)).

³ Oherwydd diffyg amrywioldeb yn y galwadau 999 amlygiad i oerfel yn ystod y cyfnod oedi, mae'r cyfraddau dyddiol cymedrig fesul 100,000 o'r boblogaeth a'u CI cyfatebol yn aros yn gyson ac nid ydynt yn adlewyrchu unrhyw amrywiad canfyddadwy



Ffigur 5 - Cyfraddau galwadau dyddiol cymedrig (fesul 100,000 o'r boblogaeth) ar gyfer galwadau 999 wedi'u categorio megis pen tost/cur pen, anadlu CO/cemegau peryglus, iechyd meddwl a gorddos neu wenwyno trwy lyncu, strôc ac anymwybodol neu lewyg yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oerfel (bar glaswyrdd) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfyngau hyder \pm 95% (linell binc))



3.2.2. Galwadau 999 penodol i gategori yn ôl grŵp oedran.


Mae'r adran hon yn crynhoi tueddiadau penodol i oedran mewn cyfraddau galwadau 999 ar draws cyfnodau oer, oedi, a llinell sylfaen. Er bod rhai canfyddiadau'n arwyddocaol yn ystadegol, nid oedd eraill yn dangos unrhyw newid ystyrion ac efallai y gallent adlewyrchu amrywiad ar hap.

Gwahaniaeth arwyddocaol o'i gymharu â'r llinell sylfaen:

- **Anawsterau anadlu**

- Ymhlith pobl 65+ oed, roedd cyfraddau galwadau 999 anhawster anadlu uwch yn ystod y cyfnod oer o'i gymharu â'r cyfnod llinell sylfaenol (IRR: 1.05%, 95% CI: 1.01–1.11; $p < 0.05$).
- Ymhlith pobl 17–64 oed (IRR: 1.12%, 95% CI: 1.05–1.21; $p < 0.05$) a 65+ oed (IRR: 1.13%, 95% CI: 1.08–1.19; $p < 0.001$), roedd cyfraddau galwadau 999 anhawster anadlu uwch yn ystod y cyfnod oedi o'i gymharu â'r cyfnod llinell sylfaen (Ffigur 6)⁴.


⁴ Ni ddogfennwyd gwybodaeth oedran ar gyfer 1,554 (1.6%) o'r 95,271 o alwadau penodol i bob categori a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn.



Ffigur 6 - Cyfraddau galwadau dyddiol cymedrig wedi'u haenu yn ôl oedran (fesul 100,000 o'r boblogaeth) wedi'u categorio fel 'Anawsterau anadlu' yn ystod y cyfnodau llinell sylfaen (bar glas brenhinol), oer (bar gwyrddlas) ac oedi (bar gwyrdd) (cyfngau hyder \pm 95% (linell binc)).

• **Cwmpïadau**


